



**Bwyd a Diod Cymru
Rhwydwaith Clwstwr
Food & Drink Wales
Cluster Network**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHAGLEN PARTNERIAETH ARLOESI AR WAITH

Mae Is-adran Fwyd Llywodraeth Cymru yn gwahodd prosiectau cydweithredol i ddatblygu atebion arloesol ym maes bwyd a diod sy'n ymdrin â heriau cymdeithasol a heriau yn y sector cyhoeddus neu broblemau cyffredin sy'n wynebu grwpiau bach o fusnesau yn y diwydiant bwyd a diod. Gwahoddir busnesau i gystadlu am gyfran o hyd at £750,000 i ymchwilio i ddatblygu cynnyrch, gwasanaethau neu brosesau newydd, a fydd yn cyflymu twf trwy gynyddu arloesedd a datblygu llwybrau i'r farchnad. Mae Rhaglen Partneriaeth Arloesi ar Waith yn anelu at hybu arloesedd mewn amgylchedd cydweithredol, gan ganiatáu busnesau bwyd a diod i weithio gyda phartneriaid yn y diwydiant, mewn addysg ac yn y sector cyhoeddus. Bydd y rhaglen yn darparu arbenigedd ac adnoddau i gyflymu datblygiad busnesau bwyd a diod arloesol yng Nghymru a chyflymu twf trwy gyfleoedd Masnach yn y DU neu Allforio trwy fuddsoddiad uchel ei werth mewn arloesedd.

Pwrpas y cyllid yw dadansoddi'r potensial i gonsortia gydweithio i ddatblygu cynhyrchion, gwasanaethau neu brosesau newydd. Mae'r cyllid yma wedi'i fwriadu i ddangos dichonoldeb technegol a masnachol y cysyniad a gynigir. Bydd cyllid yn galluogi i brosiectau ddadansoddi a gwerthuso potensial y cysyniadau a'r syniadau sy'n cefnogi'r broses wneud penderfyniadau. Gallai prosiectau dderbyn hyd at £75,000 (yn cynnwys TAW) tuag at £100,000 (yn cynnwys TAW) brosiectau. Bydd prosiectau'n cael eu dethol trwy broses gystadlu agored a byddant yn cadw hawliau eiddo deallusol a gynhyrchir fel rhan o'r prosiect.

Bydd y rhaglen hon yn cefnogi prosiectau cydweithredol i ddatblygu atebion arloesol ym maes bwyd a diod sy'n ymdrin â:

- Gwneud y gorau o gyfleoedd cydweithredol ym maes datblygu cynnyrch, gwasanaethau neu brosesau newydd, a fydd yn cyflymu twf trwy gynyddu arloesedd a datblygu llwybrau i'r farchnad.
- Mynd i'r afael â meysydd o Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol, i hwyluso arloesedd mewn meysydd megis iechyd, cynaliadwyedd a'r amgylchedd trwy drefniadau cydweithredol.
- Mynd i'r afael â heriau cymdeithasol a heriau'r sector cyhoeddus neu faterion cyffredin sy'n wynebu grwpiau bychain o fusnesau.

Cynhelir digwyddiadau briffio ar gyfer sefydliadau sydd â diddordeb darganfod mwy am y rhaglen yn y Vale Resort, Hensol, dydd Mawrth 11 Medi 2018 am 1yp a Gwesty'r Quay Hotel, Deganwy, dydd Mercher 12 Medi 2018 am 1yp. Bydd y digwyddiadau hyn yn rhoi cyfle i ymgeiswyr sydd â diddordeb holi cwestiynau am y gystadleuaeth a chwrdd ag arbenigwyr o Is-adran Fwyd Llywodraeth Cymru. I archebu lle yn unrhyw un o'r digwyddiadau briffio, anfonwch enwau a manylion cyswllt y mynychwyr at FoodBIS@wales.gsi.gov.uk gan nodi **digwyddiad briffio** yn glir (Dim mwy na 2 o bob sefydliad. Os bydd galw mawr, mae'n bosibl y byddwn yn eich hysbysu mai dim ond 1 lle sydd ar ôl). Bydd agenda ar gyfer y digwyddiad briffio a chyfarwyddiadau sut i gyrraedd

y lleoliad yn cael eu darparu wedi i chi gofrestru.

DYDDIADAU ALLWEDDOL

Lansio'r rhaglen	Gorffennaf 2018
Digwyddiadau Briffio	11 a 12 Medi 2018
Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau	28 Medi 2018
Diwrnod asesu	15 Hydref 2018
Prosiectau'n cychwyn	29 Hydref 2018
Prosiectau'n dod i ben	1 Mawrth 2019

Noder bod dyddiau'n gallu newid

Mae rhagor o fanylion am y gystadleuaeth ynghyd â dogfennau'r rhaglen, gan gynnwys y ffurflen gais i ymgeisio am y grant yn atodol isod. Os es gennych ymholiadau pellach ynglŷn â'r gystadleuaeth, anfonwch e-bost at: FoodBIS@wales.gsi.gov.uk

DOGFENNAU

- Briff y Rhaglen (IP_WG_001)
- Nodiadau Esboniadol (IP_WG_002)
- Ffurflen Gais (IP_WG_003)
- Nodiadau Esboniadol ar gyfer y Ffurflen Gais (IP_WG_004)



Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales